



yr Athro

Codiad Cyflog i Athrawon

Wedi cryn oedi, daeth cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ynghylch codiad cyflog athrawon ysgol ar gyfer 2019-20.

I grynhoi:

- cynnydd o 5% i isafswm statudol y Prif Ystod Cyflog
- cynnydd o 2.75% i uchafswm statudol y Prif Ystod Cyflog
- cynnydd o 2.75% i isafswm ac uchafswm statudol pob ystod cyflog arall (gan gynnwys arweinyddiaeth) a phob lwfans

Caiff y codiad cyflog ei ôl-ddyddio i 1 Medi.

Cyhoeddwyd £12.8 miliwn o arian newydd i'r awdurdodau lleol yn y flwyddyn ariannol hon i gyfrannu tuag at y costau ychwanegol.

Mae UCAC wedi croesawu'r dyfarniad o 2.75% - er gwaetha'r ffaith ein bod yn siomedig na fu iddynt ddyfarnu'r 5% a hawliodd UCAC ac undebau eraill. Rydym wedi nodi bod y Gweinidog, trwy ddyfarnu 2.75%, wedi rhagori ar argymhelliad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru o 2.4%.

Rydym yn bryderus dros ben nad yw'r £12.8m yn ddigon i ddigolledu awdurdodau lleol ac ysgolion, ac felly bod perygl y bydd hyn yn golygu toriadau pellach i ysgolion – a hynny ar adeg pan nad oes modd torri ymhellach heb wneud difrod sylweddol i safon yr addysg a ddarperir.

Roeddem yn siomedig iawn na weithredodd Llywodraeth Cymru ar sail nifer o argymhellion gwerthfawr gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, ac yn arbennig yr argymhelliad i ail-gyflwyno'r graddfeydd cyflog (yn hytrach na'r sefyllfa bresennol gydag isafswm ac uchafswm yn unig, a phob pwynt rhwng y ddau yn ddisgresiynol).

Yn ogystal â gweithio i sicrhau y caiff amodau gwaith (yn ogystal â thâl) sylw dyledus yn y rownd nesaf o ystyriaethau, bydd UCAC yn parhau i bwysu am setliadau tecach i athrawon, i ysgolion ac i addysg yn y Gyllideb nesaf.

Datganiad llawn:

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-dyfarnu-cyflog-athrawon-2019>



Tâl darlithwyr Addysg Bellach

Mae'r undebau Addysg Bellach ar y cyd wedi hawlio codiad cyflog o 5% (sef yr un ffigwr ag y bu i'r undebau ei hawlio ar gyfer athrawon ysgol) ar gyfer staff y sector.

Rydym yn aros am ymateb y cyflogwyr, drwy law ColegauCymru.

Pan ddaw dyfarniad, byddwn yn cysylltu â phob aelod perthnasol i roi gwybod.

Croesawu gohirio ADY

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd oedi o flyddyn wrth gyflwyno'r drefn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd.

Yn fyr:

- bydd y system ADY newydd yn cychwyn, un cam ar y tro, **o fis Medi 2021** ymlaen – dros gyfnod o dair blynedd (yn hytrach nag o fis Medi 2020 ymlaen)
- bydd rolau statudol, sy'n cynnwys Cydlynwyr ADY, yn ogystal â'r Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg yn y Byrddau Iechyd, a Swyddogion Arweiniol ADY y blyneddododd cynnar yn yr Awdurdodau Lleol, yn dechrau **ym mis Ionawr 2021**

Y bwriad yw bod rhagor o amser i sicrhau bod:

- y Cod ADY yn addas at ei bwrpas, ar sail adborth gan randdeiliaid; y bwriad yw ei gyhoeddi yn ystod 2020
- pawb, gan gynnwys y rheiny mewn rolau statudol fel Cydlynwyr ADY, yn cael cyfle i ymgyswrtu â'r Cod ADY cyn dechrau ei weithredu, a helpu i baratoi eu sefydliadau ar gyfer y system newydd
- amser ar gyfer hyfforddiant a dysgu proffesiynol penodol

Mae UCAC wedi croesawu'r cyhoeddiad, ar yr egwyddor ei bod hi'n llawer gwell pwylo a chyflwyno newidiadau mawr yn drefnus ac yn effeithiol. Dyma ymateb llawn UCAC: <https://bit.ly/2IAUUiH>

Gair o gyngor gan UCAC:

- mae'n bosib y daw pwysau o wahanol gyfeiriadau ar ysgolion a Chydlynwyr ADY i ddechrau gweithredu'r ddwy system, yr hen a'r newydd, yn gyfochrog; mi fyddai hynny'n ofyniad anghywir, ac annheg
- mae'n ofyniad cyfreithiol i barhau i weithredu dan y drefn bresennol hyd nes y caiff y drefn newydd ei chyflwyno'n swyddogol
- yr unig faes ble mae modd dechrau addasu yn barod yw symud tuag at ymagwedd 'Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' (PCP) – mae hynny'n gymeradwy dan y drefn bresennol

Dyma'r cyhoeddiad a wnaed gan y Gweinidog Addysg ar 17 Medi, gyda'r manylion llawn:

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gweithredu-system-anghenion-dysgu-ychwanegol>

Athrawon Cyflenwi: trefn newydd

Yr hen drefn

Ers sawl blwyddyn bellach, mae 'Cytundeb Fframwaith' wedi bod yn rheoli'r asiantaethau sy'n darparu athrawon cyflenwi.

Dros y blyneddododd diwethaf, mae un asiantaeth wedi cael statws 'wedi ffafrio'. Wnawn ni ddim darparu hysbyseb iddynt drwy ei enwi yma!

Y drefn newydd

O fis Medi eleni ymlaen, mae'r drefn yn wahanol gyda 27 asiantaeth wedi cael caniatâd i weithredu ledled Cymru, er nad pob un ohonynt ym mhob awdurdod lleol.

Er mwyn cael y caniatâd i weithredu, bu'n rhaid i'r asiantaethau ymrwymo i'r amodau canlynol:

- darparu **isafswm cyflog dyddiol** ar gyfer athrawon cyflenwi cymwysedig, sef:
 $\text{Prif Ystod Gyflog 1 (M1)} \div 195 \text{ diwrnod} = \text{£}127.72 \text{ ar hyn o bryd}$
- cyhoeddi **ffioedd dyddiol**, gan gynnwys faint sy'n mynd i'r athro a faint sy'n mynd i'r asiantaeth
- darparu **dysgu proffesiynol** perthnasol, di-dâl i athrawon cyflenwi

- sicrhau **cymorth priodol i athrawon newydd**

gymhwyso fel bod modd iddynt fodloni gofynion Cyfnod Ymsefydlu

- diddymu'r Rhanddirymiad Sweden** (*Swedish Derogation*) oedd yn caniatáu i asiantaethau osgoi gofynion Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010 sy'n rhoi hawliau i'r gweithwyr ar ôl 12 wythnos yn yr un swydd neu leoliad

- cofrestru gyda **chorff recriwtio proffesiynol** perthnasol

Pryderon UCAC

- nid oes gorfodaeth i ddefnyddio'r asiantaethau sy'n rhan o'r Fframwaith; mae llawer o asiantaethau nad ydynt yn rhan ohono
- nid oes unrhyw ddeddfwriaeth i orfodi'r ffi ddyddiol; mae'n llwyr ddibynnol ar gytundeb ac ymddiriedaeth rhwng asiantaethau, ysgolion, awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol
- mae asiantaethau/ysgolion yn cyflogi athrawon cymwys fel 'goruchwyliwr cyflenwi' ac felly'n osgoi talu'r isafswm cyflog

Barn UCAC yw mai'r unig ffordd o sicrhau cyflogaeth a thriniaeth deg i athrawon cyflenwi yw sicrhau eu bod yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan ysgol neu awdurdod lleol. Nid oes unrhyw ffordd arall o sicrhau eu bod yn derbyn tâl ac amodau gwaith statudol ac yn cael bod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

Bydd UCAC yn parhau i ymgyswrtu i sicrhau chwarae teg i athrawon cyflenwi Cymru.

Rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am y drefn newydd:

<https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/athrawon-cyflenwi/>

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Julia James

Is-Lywydd: Eirlys Edwards

Ysgrifennydd Cyffredinol: Dilwyn Roberts-Young

Cydylynydd Yr Athro: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidiwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970 639950, ucac@ucac.cymru, www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

Meddwlgarwch

Cefais y fraint yn ddiweddar o fynychu cyfarfod yn dwyn y teitl 'Cymru: Gwlad ofalgar?' oedd wedi'i drefnu ar gyfer pawb sy'n ymwneud ag addysg, er mwyn creu gweledigaeth a strategaeth fydd yn sicrhau effaith 'ymwybyddiaeth ofalgar' yng Nghymru.

Roedd y grŵp wedi cyfarfod yn gynharach ym mis Mai er mwyn bwrw'r cwch yn ddyfnach i'r dŵr o ran iechyd a lles yn y byd addysg yma yng Nghymru.

Beth yw meddwlgarwch o fewn cyd-destun ysgol?

Meddwlgarwch yw dysgu i dalu sylw i'n profiadau wrth iddynt ddigwydd, a hynny gyda chwilfrydedd a derbyniad ac yn ystod y dydd cafwyd cyfle ardderchog i glywed sut roedd ymarferwyr amrywiol wedi dechrau ymgorffori meddwlgarwch yn eu hawdurdodau lleol, a'u hysgolion.

Roedd yn ddiddorol iawn clywed ymateb o Gyngor Sir Gâr, lle'r oedd dros 200 o staff wedi cael eu hyfforddi ar gwrs Meddwlgarwch chwe wythnos. Roedd yr Awdurdod wedi bod yn flaengar iawn yn eu cynlluniau hyfforddi ac roedd llawer o athrawon bellach yn gallu gweithredu a defnyddio'u harbenigedd wrth ddysgu disgyblion ar lawr y dosbarth.

Roedd un pennaeth wedi defnyddio arian Grant Datblygu Disgyblion/Plant mewn Gofal yn greadigol gan ei wario ar hyfforddi clwstwr o athrawon mewn cyrsiau meddwlgarwch.

Roedd un o'r rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn siarad o safbwynt aelod o Uwch Dîm mewn ysgol uwchradd, ac roedd yr ysgol wedi sicrhau fod pob disgybl yn dilyn cwrs gorfodol mewn ymwybyddiaeth ofalgar yn yr Ysgol Iau. Roedd wedi cael effaith gadarnhaol iawn trwy'r ysgol.

Roedd pennaeth cynradd wedi trefnu fod staff ei hysgol yn cael eu hyfforddi, ac roedd y staff cyfan wedi dilyn cwrs oedd yn dwyn y teitl Paws b. Roedd hynny wedi cael effaith arwyddocaol ar awydd y plant i ddysgu yn yr ysgol.

Wrth i'r cwricwlwm newydd symud ymlaen, yn sicr fe fydd lle amlwg iawn i ymwybyddiaeth ofalgar yn y cwricwlwm lechyd a Lles.

Julia James

Llywydd Cenedlaethol UCAC



Cyllido Ysgolion

Fel mae pob aelod yn ymwybodol, mae cyllido ysgolion yn broblem ddifrifol a chynyddol.

Nôl ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad adroddiad 'Cyllido Ysgolion yng Nghymru' yn dilyn ymchwiliad manwl.

Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r adroddiad gan dderbyn pob un o'i argymhellion.

Un o'r prif argymhellion yw y dylai'r Llywodraeth gomisiynu adolygiad o **'faint o gyllid y mae ei angen i gyllido ysgolion yn ddigonol, yn enwedig o gofio lefel y diwygiadau sydd ar y gweill'**.

Ddiwedd Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams ei bod yn penodi'r economegydd addysg blaenllaw, Luke Sibietta i gynnal yr adolygiad, gan ofyn iddo gwblhau'r gwaith erbyn diwedd y flwyddyn ysgol hon.

Dywedodd y Gweinidog **"Er ... [ei fod] yn anodd nodi "isafswm cost", bydd y gwaith hwn yn darparu dadansoddiad hanfodol ar gyfer y Llywodraeth, awdurdodau lleol, ysgolion a phawb sydd am sicrhau bod y sector addysg yng Nghymru yn cael y buddsoddiad cywir."**

Adroddiad y Pwyllgor:

<http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12643/cr-ld12643-w.pdf>

Ymateb y Llywodraeth:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s93706/Ymateb%20Llywodraeth%20Cymru.pdf>

Cyhoeddi penodi Luke Sibietta:

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-penodi-luke-sibietta-ymateb-i-ymchwiliad-y-pwyllgor-ppia-ar-gyllido-ysgolion>



Shwmae Su'mae!

Shwmae Su'mae

Erthygl hyfyrd yn y Western Mail am **Nic Dafis**, sydd wedi dysgu Cymraeg, nawr yn diwtor yn ardal Aberteifi, sefydlwr maes-e a blogiau di-ri, ac yn ymgyrchu gyda'r grŵp Gwrthryfel Difodiant (Extinction Rebellion), sydd am weld mwy o siaradwyr Cymraeg yn rhan o'r mudiad hinsawdd.



Dathlwyd Diwrnod Shwmae Su'mae unwaith eto eleni ar 15 Hydref – gan gynnwys trefnu bod baner yn cyhwanu o Brif Swyddfa UCAC yn Aberystwyth.

Cafwyd sylw yn ogystal i aelod UCAC Nic Dafis – un o lysgenhadon y Diwrnod eleni.

Pecyn addysgol y Comisiynydd

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn lansio pecyn addysgol newydd ddydd Gwener, 6 Rhagfyr 2019 er mwyn dangos i blant ysgolion cyfrwng Cymraeg a di-Gymraeg bwysigrwydd y Gymraeg yng Nghymru, ac i egluro gwaith y Comisiynydd. Mae'n annog plant i chwilio am, gweld a chlywed y Gymraeg yn eu hardal nhw.

Yn rhan o'r pecyn addysgol newydd mae fideo, cynllun gwera a chyflwyniad syml i blant ar waith Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r adnodd wedi'i anelu at blant diwedd Cyfnod Allweddol 2 (blwyddyn 5 a 6), ac wedi derbyn canmoliaeth a chroeso cynnes gan athrawon mewn ysgolion wrth dreialu.

Bydd y pecyn yn cael ei lansio yn Ysgol Gynradd Brynaman gan Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg. Dywedodd:

“Mae'r adnodd hwn yn ychwanegiad pwysig tuag at y cwricwlwm er mwyn annog plant cynradd i werthfawrogi eu hiaith a'u hannog i ddefnyddio eu hawliau i'w defnyddio yn y dyfodol.

Ond mae'n mynd y tu hwnt i ffiniau'r dosbarth hefyd, gan ysgogi'r plant i sylweddoli pwysigrwydd a pherthnasedd yr iaith yn eu milltir sgwâr, lle bynnag maen nhw'n byw yng Nghymru.

Gyda tharged y llywodraeth i gynyddu'r nifer sy'n siarad Cymraeg i filiwn erbyn 2050, mae'n hanfodol fod plant Cymru'n ymwybodol o'u hawliau fel siaradwyr Cymraeg.”

Yn y fideo, ffilmwyd gan gwmni cynhyrchu *Goriad* o Gaerdydd, gwelwn Briallen Rees-Owen a Cai Efan Thomas



Cai a Briallen yn cael eu ffilmio yn y siop

sydd bellach yn Ysgol Uwchradd Dyffryn Aman, yn crwydro pentref Brynaman. Maen nhw'n gweld y Gymraeg yn yr archfarchnad leol, yn y ganolfan hamdden, y llyfrgell, cae rygbi, caffi a siop leol. Maen nhw hefyd yn sylwi fod ambell berson yn gwisgo swigen oren 'laith Gwaith' sy'n dangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn y gweithle.

Mae'r adnodd addysgol yn dilyn nodau'r Siarter Iaith, ac yn hybu'r defnydd o Gymraeg yn gymdeithasol mewn ysgolion cynradd Cymraeg. Bydd ar gael o wefan HWB Llywodraeth Cymru o ddydd Llun, 18 Tachwedd, 2019.

Os hoffech ragor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu gyda Swyddog Cyfathrebu Comisiynydd y Gymraeg, Glesni Haf Parry: Glesni.parry@comisiynyddygymraeg.cymru

Technoleg 'Darllen yn uchel'

Efallai'ch bod chi wedi sylwi ar dechnoleg ReadSpeaker ar wefan UCAC.


Mae'n dechlyn sy'n caniatáu i'r testun ar y wefan gael ei ddarllen yn uchel wrth amlygu'r geiriau sy'n cael eu darllen er mwyn gallu dilyn â'r llygad.

Dyma enghraifft o dechnoleg sydd, nid yn unig yn gallu gwella mynediad i'r rhai sydd ag anawsterau gweld neu ddarllen, ond yn gallu ehangu posibilïadau addysgol hefyd.

Mae'n ehangu'r ffyrdd o gymryd gwybodaeth i mewn – darllen a gwrando, gweld a chlywed. Gwyddom fod cymathu cysyniadau'n rhwyddach po fwyaf o ffyrdd sydd ar gael i ymwneud â nhw.

Dyma sawl ffordd y mae cwmni ReadSpeaker yn awgrymu y gall dysgwyr ddefnyddio technoleg darllen yn uchel:

1. Gwrando ar wersi/darlithoedd neu destunau eraill – ble bynnag fyddwch chi, ar fws neu drên, neu'n cerdded i'ch gwarsi



2. Mae modd defnyddio'r adnodd 'dictation' sef teipio awtomatig wrth ddarllen yn uchel; mae modd golygu gramadeg ac atalnodi wedyn
3. Mae'r adnodd 'Cyfieithu' a 'Geiriadur' yn rhoi'r cyfle i glywed geiriau wedi'u cyfieithu a diffiniadau, sy'n fodd o wella dealltwriaeth ac ehangu geirfa

Rhagor o wybodaeth: <https://textaid.readspeaker.com/>